Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

17 Ionawr 2017

Annwyl Gyfaill

**Ymgynghoriad ar Fil yr Undebau Llafur (Cymru)**

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn cynnal ymchwiliad i egwyddorion cyffredinol Bil yr Undebau Llafur (Cymru). Mae rhagor o fanylion am y Bil a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig ar gael ar dudalen y Bil ar y wefan.

**Cylch gorchwyl**

Dyma gylch gorchwyl y Pwyllgor ar gyfer ei ymchwiliad:

Ystyried —

1. egwyddorion cyffredinol Bil yr Undebau Llafur (Cymru) a'r angen am ddeddfwriaeth i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu'n barhaus ac yn effeithiol trwy ddatgymhwyso rhai o ddarpariaethau Deddf Llywodraeth y DU, Deddf Undebau Llafur 2016, fel y maent yn gymwys i awdurdodau datganoledig Cymru. Dyma'r darpariaethau sydd i gael eu datgymhwyso:
    - y trothwy pleidleisio o 40 y cant ar gyfer gweithredu diwydiannol sy'n effeithio ar wasanaethau cyhoeddus pwysig.

   - pwerau i'w gwneud yn ofynnol cyhoeddi gwybodaeth am amser cyfleuster ynghyd â gosod gofynion ar gyflogwyr yn y sector cyhoeddus mewn cysylltiad â thalu am amser cyfleuster, a
   - chyfyngiadau ar gyflogwyr mewn cysylltiad â didynnu taliad tanysgrifiadau undeb o gyflogau;
2. unrhyw rwystrau posibl rhag rhoi darpariaethau'r Bil ar waith, ac a yw'r Bil yn eu hystyried;
3. a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil; a
4. goblygiadau ariannol y Bil (fel y'u nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol).

**Gwahoddiad i gyfrannu at yr ymchwiliad**

Hoffai'r Pwyllgor eich gwahodd i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i gynorthwyo â'i waith o ystyried y Bil. Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ddefnyddio'r cylch gorchwyl uchod i lunio eich ymateb.

Dylai sylwadau gyrraedd erbyn dydd Gwener **17 Chwefror 2017**.

Os ydych am gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig ohoni i: SeneddCymunedau@cynulliad.cymru

**Canllawiau**

Ni ddylai'r dystiolaeth fod yn hwy na phum ochr tudalen A4. Dylid rhifo'r paragraffau, a dylai'r dystiolaeth ganolbwyntio ar y cylch gorchwyl.

Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, dylech roi disgrifiad byr o rôl eich sefydliad.

Gweler y canllawiau i rai sy'n darparu tystiolaeth ar gyfer pwyllgorau.

**Polisi dwyieithrwydd**

Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn y naill neu'r llall o'n hieithoedd swyddogol, Cymraeg a Saesneg, neu'r ddwy. Os na chyflwynir gwybodaeth yn ddwyieithog, ni fydd yn cael ei chyfieithu, a chaiff ei chyhoeddi yn yr iaith y

cafodd ei chyflwyno ynddi yn unig. Disgwyliwn i sefydliadau weithredu eu safonau a'u cynlluniau eu hunain a chydymffurfio â'u rhwymedigaethau statudol.

**Datgelu gwybodaeth**

Mae rhagor o fanylion am sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth yn http://www.cynulliad.cymru/PrifatrwyddYmchwiliadau. Gofynnwn ichi sicrhau eich bod wedi ystyried y manylion hyn yn ofalus cyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor.

**Manylion cyswllt**

Os hoffech siarad â rhywun am yr ymgynghoriad hwn, defnyddiwch y manylion cyswllt a ganlyn:


Clerc y Pwyllgor

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bae Caerdydd, CF99 1NA.

E-bost: SeneddCymunedau@cynulliad.cymru

Rhif ffôn: 0300 200 6565


Yn gywir,

John

John Griffiths AC

**Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau**